

Cofion

Parhawn i gofio yn ein gweddïau am Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Maelor, ac am Gwyn Jones (Peniel) a Gwyneth Rawson (Llanfair), hwythau'n cael gofal yn yr Inffirmari. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2018

Gair i'ch atgoffa am waith cwrs yr Ysgolion Sul eleni. Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema **'Caru ein Cymydog'**. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, cyflwyniad PowerPoint. Bydd arddangosfa o'r gwaith yn cael ei greu ar gyfer yr Henaduriaeth fydd yn cyfarfod yn Llansannan ar Mai 11eg, pryd cyflwynir tystysgrifau, a bydd sgwrs, lluniaeth ysgafn i bawb ac adloniant i'r plant i ddiweddu'r noson. Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn nos Lun, Mawrth 26ain**.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am gyflwyniad ar yr un thema – **'Caru ein Cymydog'**. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau, neu gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i Meirwen Hughes (01745 823802), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad. Pob hwyl wrth baratoi'r gwaith!

I ddod

PENWYTHNOS IEUENCTID (BL 7-11) yng Ngholeg y Bala, Chwefror 16eg–18fed. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg. Mwy o wybodaeth gan Gwion.

LLANW – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28^{ain} Ionawr 2018

Darlleniad y Dydd

Mathew 7:21-23

(BCND tud.8 / BCN tud.7)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw. Lle'r oeddech chi pan glywsoch chi am? Boed y gair yn y bwlch yn Aberfan, saethu Kennedy, neu ymosodiad Medi'r 11eg, dwi'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonom yn gallu cofio darnau o newyddion neu ddigwyddiadau a'n hysgwydodd i'r byw. Maent yn torri ar draws patrwm arferol bywyd a gwneud i ni ddwys ystyried pethau. A dyna'r union effaith y mae geiriau Iesu i'w gael arnom wrth i ni droi at ein darlleniad ar y cyd o Mathew 7 heddiw. Dywed Iesu yn blaen nad yw pawb sy'n honni bod yn ddilynwyr yn ddilynwyr go iawn iddo. Ac felly nid yw pawb sy'n dweud eu bod yn Gristnogion wir yn Gristnogion. Gall hyd yn oed y rhai sy'n gwneud pethau mawr yn enw Iesu fod yn twyllo'u hunain a chael eu gwrthod gan Grist ar ddydd y farn. Yn naturiol mae'r rhybudd yma gan Iesu'n gwneud i ni feddwl yn ddifrifol am ein ffydd ein hunain, ac mae dysgeidiaeth Iesu yma'n gyfarwyddyd addas i'n cyfeirio wrth wneud hynny.

Da o beth yw i bawb ohonom holi'n hunain: ar sail beth ydw i'n tybio fy mod yn Gristion – ar sail fy ngweithredoedd neu fy magwraeth, neu'r hyn y mae pobl eraill wedi ei ddweud wrthyf? Oherwydd yn y pen draw, nid beth ydw i wedi ei wneud, nag o le'r wyf wedi dod sy'n allweddol, ond pa fath o berthynas sydd gen i hefo'r Arglwydd Iesu. Ydym ni wedi ildio'n hunain i Grist? Os ydym wedi troi at Iesu o ddifrif gan ymddiried ynddo Ef a throi cefn ar ein pechod a'n hunan gyfiawnder, mae'r Beibl yn ein dysgu fod Iesu yn ein derbyn ni fel ag yr ydym. Wedi'r cwbl, hwn yw'r un a roddodd y gwahoddiad hyfryd: “Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi.” (Mathew 11:28) Ac os ydym wedi cael ein huno hefo Iesu trwy ffydd, yna mae'r Ysbryd Glân yn nom, a bydd ei ffrwyth i'w weld trwy'n bywydau. (Galatiaid 5:22) Dyna pam fod geiriau Iesu yn Mathew 7 yn pwysleisio fod y rhai sy'n wir ddilynwyr iddo yn ei adnabod, gyda'r berthynas honno'n cael ei hamlygu wrth iddynt wneud ewyllys y Tad (Mathew 7:23). Felly mae gwir ffydd yng Nghrist yn golygu proffesu pwy yw eich Arglwydd, bod mewn perthynas gariadus ag Ef (Crist yn ein hadnabod ni a ninnau'n ei adnabod Ef), a byw mewn ffordd sy'n cyd-fynd â hynny yn gyhoeddus ac yn y dirgel.

Wrth i ni ystyried y pethau yma i gyd, gweddiwn am gymorth Duw i ddangos i bob un ohonom yr hyn sy'n wir amdonom, a thrwy hynny y cawn ras i bwysio'n llwyr ar Iesu, y Bugail Da a'n hunig obaith mewn bywyd a marwolaeth.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Joel 3:14-16 (BCND tud.830 / BCN tud.756)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 28^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 30^{ain}
lau – 1^{af} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **CIC+** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Gwener – Sul
2^{il} – 4^{ydd} ➤ **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed)** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych chi eisoes wedi archebu lle, bydd angen i chi wneud hynny yn sydyn trwy anfon y ffurflen gofrestru ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala.
- Sadwrn – 3^{ydd} ➤ **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yng Nghaffi Gorwelion, Y Bala am 10.00.
- **'USING CRAFT TO TEACH THE BIBLE'** – Croeso i unrhyw un ymuno mewn sesiwn hyfforddiant fydd yn cael ei gynnal yn Eglwys y Bedyddwyr, Princes Drive, Bae Colwyn LL29 8LA o 10.00-2.00. Cost: £7.50 fydd yn cynnwys y deunyddiau a chinio. RHAID archebu lle ymlaen llaw – cysylltwch â Rachel Hughes (rhughes@urbansaints.org / 01678 530347).
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tanygraig a bydd Celfyn yn pregethu.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mawrth – 30^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.00, a bydd cyfarfod i'r blaenoriaid a'r diaconiaid i ddilyn.
- Mercher – 31^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (28^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Yn yr un modd, cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a'r Ysgol Sul am 2.00.
- Gwener – 2^{il} ➤ Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 7.00 yng nghwmni Mr Arwel Jones, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd gwasanaeth wedi ei drefnu i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.